Cofnodion Cyfarfod Hydref 4ydd 2023 - Pringles

Gareth Jones, Gwynfor Parry, Stephen Edwards, Alun Jones

1. **Coeden.**

   Y goeden newydd wedi gweithio yn dda llynedd. Llai o drafferth ei rhoi i fyny ond angen digon o egni a dynion i wneud y gwaith.
   Awgrymu defnydd o sgaffaldiau blwyddyn yma i helpu gyda chodi'r rhan uchaf **Gareth**

   Penderfynwyd codi'r goeden Rhagfyr 2ail, sef diwrnod ar ôl i Festive Lighting osod y goleuadau stryd

2. **Goleuadau'r Goeden a'r cloc**

   Wrth fod goleuadau yn barod ar y goeden, defnyddiwyd yr hen oleuadau yn effeithiol o gwmpas y cloc llynedd. Gwneud yr un fath eleni **Gareth**

3. **Cyngerdd Nadolig**

   Trafodwyd y ffordd orau ymlaen eleni gyda'r cyngerdd. Ydi'r gost werth y drafferth?

   Penderfynwyd cario ymlaen eto eleni

   Dyddiad arfaethedig Rhagfyr 14 am 7:00yh

   Stephen wedi cael cadarnhad unwaith eto o £800 am y llwyfan, gan gynnwys gazebo i'r band. Hefyd yn cynnwys y technegwyr a'r offer sain, fel arfer.

   Penderfynwyd ail drefnu yr isadeiledd eleni gyda'r ffensys yn rheoli mynediad at y llwyfan yn well

   Eitemau:

   Cadw gyda Mr Eds a Ffleur de Leis. Gofyn am fwy o gynnwys traddodiadol Nadoligaidd **Gwynfor**

   Seindorf Biwmares wedi sefyll i mewn yn rhagorol llynedd. Gofyn iddynt ddod eto eleni. **Gareth**

   Côr yr ysgol, angen holi os ydynt ar gael. **Stephen**

   Arwain y Cyngerdd- Stephen

   Elin Fflur neu Sara os ydynt ar gael **Stephen**

   Syniad i gael aelodau o gôr lleol i aros ar y llwyfan drwy gydol y noson i helpu codi'r canu.

   Stephen gyda chyswllt i Hogia'r Ddwylan **Stephen**

   Gofyn i Alun Morton gychwyn yr achlysur a'r Rheithor newydd ddod a phethau i derfyn.

   Gareth, Stephen

   Dim mwy na 45 munud

Taflen carolau: Cadarnhau bod gennym ddigon ar gael **Gareth**

Poster: Paratoi dyluniad newydd **Stephen**

Angen gofyn i Pringles am ganiatâd i ddefnyddio'r safle fel llynedd. **Stephen**

Iechyd a Diogelwch:

- Ffensys i reoli'r gynulleidfa a thrafnidiaeth (Amcan gost £60). **Stephen**
- Paratoi Asesiad Risg a danfon copi i Pringles **Gareth**
- Stiwardio a chasglu arian **Cyngor Bro**

Achosion da. Cyngor Bro i benderfynu **Cyngor Bro**

4. Goleuadau Stryd

Festive Lighting a CSYM wedi bod mewn cyswllt i sicrhau bydd popeth yn gywir

Angen sicrhau fod Festive Lighting wedi cynnal arbrofion a sicrhau fod y goleuadau i gyd yn ddiogel.

Gosod goleuadau stryd Rhagfyr 1af

5. Neuadd Goffa

Awgrymu defnyddio'r goleuadau sydd yn sbâr i addurno'r Neuadd **Gareth**

6. Dyddiadau

Gosod y goleuadau stryd – Rhagfyr 1af
Gosod y goeden – Rhagfyr 2ail
Cyngerdd Nadolig – Rhagfyr 14

Gareth Jones 05/10/2023